**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Arfarnu'r Prif Weithredwr

**Ystafell Gynhadledd y Cabinet, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Llun, 9 Medi 2019 am 3.00 pm**

**Yn Bresennol**:

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M C Child | E W Fitzgerald | C A Holley |
| L R Jones | A S Lewis | C E Lloyd |
| I E Mann | J A Raynor | R C Stewart |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Adrian Chard | Rheolwr Adnoddau Dynol Strategol a Datblygu Sefydliadol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): Dim

---

**1 Ethol Cadeirydd ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2019/2020.**

**Penderfynwyd** ethol y Cynghorydd R C Stewart yn Gadeirydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2019-2020.

**Bu'r Cynghorydd RC Stewart (Cadeirydd) yn llywyddu**

**2 Ethol Is-gadeirydd ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2019/2020.**

**Penderfynwyd** ethol y Cynghorydd C E Lloyd yn Is-gadeirydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2019/2020.

**3 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**4 Cofnodion:**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor Arfarnu a Chydnabyddiaeth Ariannol y Prif Weithredwr a gynhaliwyd ar 10 Mis Mai 2018 fel cofnod cywir.

## 5 Gwahardd y cyhoedd.

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem fusnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail ei fod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraffau gwahardd 12 ac 13 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas â'r eitem fusnes fel a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor brawf budd y cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd prawf budd y cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 6 Adolygiad Blynyddol o Berfformiad y Prif Weithredwr.

Darparodd y Prif Weithredwr ddiweddariad ar yr amcanion perfformiad a nodwyd ganddo ar gyfer 2018/19. Nodwyd y bu’n absennol o'r gwaith rhwng 29 Ionawr 2019 a 2 Mehefin 2019 oherwydd salwch. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd wedi cytuno ar drefniadau dros dro priodol gyda'r arweinydd i sicrhau bod y risg i'r cyngor wedi'i leihau a'i reoli.

Amlinellodd y Prif Weithredwr adroddiad cynnydd manwl yn ymwneud â'r themâu a'r perfformiadau amrywiol tuag at yr amcanion a amlygwyd yn yr atodiadau i'r adroddiad.

Nododd ac amlinellodd hefyd ei amcanion ar gyfer 2019/20.

Gofynnwyd cwestiynau ynghylch yr amcanion, a'r meysydd pwnc amrywiol a pherfformiad, ac ymatebodd y Prif Weithredwr yn briodol. O ganlyniad i'r trafodaethau a gynhaliwyd, cryfhawyd yr amcanion yn unol â hyn. Byddai'r Prif Weithredwr yn ail-gylchredeg yr amcanion diwygiedig i'r pwyllgor.

**Penderfynwyd:**

1) Roedd yr aelodau'n fodlon ar berfformiad y Prif Weithredwr;

2) Cytunodd y pwyllgor ar yr amcanion diwygiedig ar gyfer 2019/20.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.25 pm

**Cadeirydd**